Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Da byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **16 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio**

**Rheoliadau Da byw (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**
Bucholion

- Rheoliad y Cyngor a'r Senedd EC 1760/2000
- Rheoliad y Comisiwn EC 911/2004
- Rheoliad y Comisiwn EC 644/2005
- Rheoliad y Comisiwn EC 509/1999
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn UE 2017/949
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1082/2003
- Rheoliad y Comisiwn EC 494/98
- Penderfyniad y Comisiwn EC Rhif 2006/28

Defaid a Geifr

- Rheoliad y Cyngor EC 21/2004
- Rheoliad y Comisiwn EC 1505/2006
- Penderfyniad y Comisiwn EC 2006/968

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae adnabod a chofrestru da byw (Defaid, Geifr, Gwartheg a Moch) yn swyddogaeth ddatganoledig

**Diben y diwygiadau**
Diben yr OS hwn (y weithdrefn negyddol), i'w gyflwyno gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), fydd sicrhau bod deddfwriaeth yr UE ar adnabod a chofrestru da byw (Defaid, Geifr, Gwartheg a Moch) yn parhau i fod yn weithredadwy yn y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r OSau a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob diwygiad hwn i'w gweld yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-livestock-records-identification-and-movement-amendment-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.